

Goblygiadau Ariannol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Rhagfyr 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau Ariannol y Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru)

Rhagfyr 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Alun Davies AS
LLafur Cymru



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru



Nick Ramsay AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mark Reckless AS*
Annibynnol

*Etholwyd Mark Reckless i'r Pwyllgor Cyllid fel aelod o Blaid Brexit tan 16.10.2020. Yna cafodd ei ethol i'r Pwyllgor Cyllid ar 4.11.2020 fel Aelod Annibynnol.

Cynnwys

Argymhellion ac Casgliadau	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Cefndir y Bil.....	8
3. Costau a manteision – trosolwg.....	12
4. Y gofynion newydd ar gyfer ysgolion a'r heriau wrth asesu'r costau	18
5. Costau Suddedig	28
6. Effaith COVID-19	32
7. Adolygiad ôl-weithredu	38

Argymhellion ac Casgliadau

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn diffinio ac yn gwerthuso llwyddiant y Cwricwlwm newydd ac yn amlinellu hyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.....Tudalen 17

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau i ysgolion ac yn ymgysylltu ag ysgolion heblaw Ysgolion Braenaru ynghylch y costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.....Tudalen 27

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r sail ar gyfer yr ystod o +/- 50 y cant o ran costau ysgolion.....Tudalen 27

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddiffinio ac amcangyfrif y costau ar gyfer 'addysg heblaw yn yr ysgol' a chostau trefniadau asesu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.....Tudalen 27

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y fformiwla ar sail athrawon a ddefnyddir i ariannu ysgolion yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y ffyrdd eraill y mae ysgolion yn cael cyllid er mwyn cynorthwyo tryloywder.....Tudalen 27

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r manylion am yr holl gostau suddedig sy'n ymwneud â'r Bil yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.Tudalen 31

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am ei thrafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y costau posibl i'r system addysg ôl-16 a chyhoeddi unrhyw fanylion am y goblygiadau ariannol.Tudalen 37

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn adolygu'r costau a ddarperir gan

randdeiliaid (ac yn rhoi gwybod i'r Senedd am y costau hynny) a'r amserlenni gweithredu.....Tudalen 37

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddararu'r Memorandwm Esboniadol o ran ei chynigion ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys sut a phryd y mae'n bwriadu gwneud hyn.
.....Tudalen 39

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol;
.....Tudalen 17

Casgliad 2. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi llywio'r broses o lunio'r polisiau sy'n gysylltiedig â'r Bil.
.....Tudalen 17

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i graffu a gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog mewn perthynas ag unrhyw newidiadau dilynol i gostau'r Bil maes o law – er nad yw hynny'n opsiwn priodol yn lle craffu ar y costau hyn yng Nghyfnod 1 y Bil.....Tudalen 26

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig ag ysgolion a gasglwyd drwy ymgysylltu â 15 Ysgol Fraenaru yn sylfaen dystiolaeth ddigonol.
.....Tudalen 27

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) gan Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg (y Gweinidog), ar 6 Gorffennaf 2020.
2. Cyflwynwyd Memorandwm newydd yn lle'r fersiwn gychwynnol ar 1 Medi 2020. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Cyllid ar 1 Medi 2020 i roi gwybod iddo fod Memorandwm diwygiedig wedi'i osod ac i dynnu sylw'r Pwyllgor at y newidiadau.
3. Diben y Bil yw darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.¹
4. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i ddweud:

“Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol, sy'n cefnogi cynnwys y cwricwlwm a'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith, yn seiliedig ar fodel a luniwyd dros 30 mlynedd yn ôl, ac nid yw mwyach yn addas at y diben. Er bod y ddeddfwriaeth sy'n sail i drefniadau'r cwricwlwm wedi'i diweddarau ac ychwanegiadau wedi'u gwneud iddi o bryd i'w gilydd ers y1980au, yr un yw ei nodweddion hanfodol o hyd. Nid yw'r rhain yn cyd-fynd â newidiadau diweddar a newidiadau sy'n parhau o ran y dechnoleg ac o ran y ffordd y mae ein cymdeithas a'n heconomi'n datblygu.”²

5. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil gan y Gweinidog ar 21 Medi 2020.
6. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar oblygiadau'r Bil o ran polisi.

¹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 9

² Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 11

2. Cefndir y Bil

7. Nodir yn y Memorandwm fod y fframwaith deddfwriaethol presennol, sy'n cefnogi cynnwys y cwricwlwm a'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith, yn seiliedig ar fodel a luniwyd dros 30 mlynedd yn ôl ac nad yw mwyach yn addas at y diben. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i ddweud:

“Er bod y ddeddfwriaeth sy'n sail i drefniadau'r cwricwlwm wedi'i diweddarau ac ychwanegiadau wedi'u gwneud iddi o bryd i'w gilydd ers y1980au, yr un yw ei nodweddion hanfodol o hyd. Nid yw'r rhain yn cyd-fynd â newidiadau diweddar a newidiadau sy'n parhau o ran y dechnoleg ac o ran y ffordd y mae ein cymdeithas a'n heconomi'n datblygu.”³

8. Dywed y Memorandwm fod y siwrnai ar gyfer diwygio addysg yng Nghymru wedi dechrau yn 2009 pan berfformiodd Cymru yn gymharol wael yn arolwg Rhaglen Rhyngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Roedd perfformiad pobl ifanc 15 oed o Gymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd yr OECD, yn enwedig ar gyfer darllen a mathemateg.⁴

9. Cafodd adroddiad yr Athro Graham Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus': Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015), a'r adroddiad dilynol ar y Sgwrs Fawr ynghylch Addysg (2015), eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru â'r bwriad o ailedrych ar ddibenion sylfaenol addysg.⁵

10. Derbyniodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg ar y pryd, adroddiad ac argymhellion yr Athro Donaldson yn llawn, gan datgan ym mis Mawrth 2015:

“...[nid] rhyw chwarae â hen gwricwlwm cenedlaethol 1988 yw hyn. Mae'n nodi ein bod yn cael gwared ar gwricwlwm cenedlaethol 1988

³ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 11

⁴ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 13

⁵ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 14

ac yn ail-greu cwricwlwm hollol newydd o'r gwaelod i fyny gydag athroniaeth wahanol yn sail iddo.”⁶

11. Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, a oedd yn nodi sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen dros y cyfnod rhwng 2017 a 2021, gan sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei roi ar waith, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, rhagoriaeth a thegwch fel rhan o system hunanwella.⁷

12. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

“Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru i gynllunio ei chwricwlwm ei hun yn unol â dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb. Mae angen strwythur deddfwriaethol newydd i gefnogi cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion, ac y mae cynnydd y dysgwr yn gwbl ganolog iddo. Bydd y Bil, ynghyd â deddfwriaeth a chanllawiau ategol, yn darparu ar gyfer cwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac yn diffinio'r 'syniadau mawrion' y dylai dysgwyr eu deall ac ymdrin â hwy er mwyn eu paratoi ar gyfer eu bywydau. Bydd yn cynnig cyfle i ysgolion, o fewn fframwaith cenedlaethol, i lunio cwricwlwm sy'n creu cysylltiadau ystyrlon â'r gymuned leol ac â phrofiadau'r dysgwyr.”⁸

13. Esboniodd y Gweinidog fod y Bil yn darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer datblygu diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru yn llwyr ac mai dyma fyddai'r tro cyntaf yn hanes ein cenedl i ni greu cwricwlwm cenedlaethol, a gynlluniwyd gan bobl Cymru, i blant a phobl ifanc Cymru.⁹ Aeth ymlaen i ddweud:

⁶ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 4 Mawrth 2015

⁷ https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl?_ga=2.236921346.2002902316.1604479120.1189160822.1601996132

⁸ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 12

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 21 Medi 2020

“Its origins lie in a number of reports, namely an Organisation for Economic Co-operation and Development report into the state of Welsh education in 2014, and the 'Successful Futures' report by Professor Graham Donaldson that highlighted some strategic challenges facing Welsh education in terms of outcomes for students, but also the shortcomings of the current curriculum that was originally designed in 1988. That was before the fall of the Berlin wall, before we all carried around, essentially, computers in our pockets, and, therefore, does not meet the needs of children and young people, or, indeed, employers, and I would suggest our society in the world that we expect our children and young people to move in. And, my goodness me, if you were not convinced of the need for reform prior to COVID-19, then I think COVID-19 has just demonstrated why we need to reform how our curriculum is currently organised.”¹⁰

14. Cyhoeddwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Ionawr 2020 ar ffurf canllawiau statudol dros dro. Yn ddarostyngedig i basio'r Bil yn llwyddiannus, bydd hwn yn cael ei ailgyhoeddi ar ffurf Cod sy'n nodi 'Yr Hyn sy'n Bwysig' o dan bob maes dysgu a phrofiad a chanllawiau statudol eraill.

15. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r proffesiwn, a bod proses o ddatblygu ar y cyd wedi arwain at gyhoeddi 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ym mis Ionawr 2020.¹¹ Ychwanegodd:

“Clearly, a curriculum is only as good as the professionals that are charged with its delivery, and therefore one of the key challenges for implementation is ensuring that our schools are ready and our teachers are ready with the necessary pedagogical skills to underpin this new approach to education.”¹²

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 21 Medi 2020

¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 21 Medi 2020

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 21 Medi 2020

Barn y Pwyllgor

- 16.** Mae'r Pwyllgor yn synnu y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddisodli'r Memorandwm ddeufis ar ôl cyflwyno'r fersiwn wreiddiol ac ar ôl dechrau'r gwaith craffu yng Nghyfnod 1. Er nad yw'r newidiadau a wnaed yn arbennig o berthnasol i ystyried agweddau ariannol y Bil, mae'r gysail a osodwyd yn peri pryder.
- 17.** Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylid disodli Memoranda Esboniadol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 gan fod hynny'n drafferthus i'r Aelodau a'r rhanddeiliaid. Dylai Memoranda fod yn gyflawn pan fyddant yn cael eu cyflwyno a dylid anfon unrhyw wybodaeth atodol drwy lythyr, gan wneud newidiadau i'r Memorandwm ar adeg briodol yn dilyn trafodion Cyfnod 2.
- 18.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn derbyn y gallai effaith y pandemig yn ystod y cyfnod hwn fod wedi creu amgylchedd anoddach ar gyfer paratoi'r Bil a'r dogfennau cysylltiedig. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi nodi'r union ddiwygiadau a wnaed i'r Memorandwm yn ei llythyr ar 1 Medi 2020.

3. Costau a manteision – trosolwg

19. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu dau opsiwn:

- Gwneud dim
- Deddfu¹³

20. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod costau deddfu rhwng £327.9 miliwn a £619.9 miliwn, dros gyfnod o ddeng mlynedd (2021-2022 i 2030-2031). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Y costau mwyaf a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth fydd y rheini sy'n ymwneud â'r amser a fuddsoddir gan ymarferwyr i gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu newydd, ynghyd â'r cymorth dysgu proffesiynol i'w galluogi i wneud hyn a newid eu harferion er mwyn sicrhau bod eu dysgwyr yn cyflawni'r pedwar diben.”¹⁴

21. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri chategori o gostau ac yn priodoli'r costau hynny i dri sefydliad:

- Costau gweinyddol – £175.4 miliwn i'w ysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.
- Costau cydymffurfio – £146.0 miliwn i £438.0 miliwn, i'w ysgwyddo'n bennaf gan ysgolion.
- Costau eraill – £6.5 miliwn, i'w ysgwyddo gan Cymwysterau Cymru.¹⁵

Y gost o wneud dim

22. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei fod yn anodd cyflwyno cost wirioneddol ar gyfer 'busnes fel arfer' (sef cost y system a'r cwricwlwm presennol). Un o'r rhesymau am hyn yw bod gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi

¹³ Memorandwm Esboniadol, tudalennau 97 a 98

¹⁴ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 65

¹⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalennau 58 a 59

ar waith wedi bod ar y gweill ers 2015. Felly mae gweithgareddau ar y cwricwlwm newydd yn rhan annatod o fusnes fel arfer. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys rhai amcangyfrifon o gost 'busnes fel arfer' er mwyn rhoi'r cyd-destun.¹⁶

23. Amcangyfrifir y byddai 'busnes fel arfer' yn arwain at gost o £334.2 miliwn i Lywodraeth Cymru. Tybir bod hyn yn gyson drwy gydol y cyfnod gwerthuso deng mlynedd sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod digon o amser i'r trefniadau newydd gael eu hymgorffori.¹⁷

24. Cyfanswm y gwariant net ar addysg yng Nghymru yn 2018-19 oedd tua £2.7 biliwn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu gwahaniaethu 'busnes fel arfer' a'r gweithgareddau ar ddiwygio'r cwricwlwm o fewn y ffigur hwnnw na hepgor gwariant sy'n ymwneud â phobl ifanc 17 a 18 oed.¹⁸

Manteision diwygio'r Cwricwlwm

25. Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn [Dyfodol Llwyddiannus](#) ac a amlygwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys:

- lefelau cyrhaeddiad nad ydynt mor uchel ag y dylent fod (fel y gwelwyd gan PISA ac Estyn)
- [adolygiad gan yr OECD](#) yn 2014, a ddaeth i'r casgliad bod y trefniadau asesu a gwerthuso cyfredol yn anfoddhaol wrth wella perfformiad ymhlith cyfran uchel o bobl ifanc Cymru
- diffyg dilyniant mewn addysg ac ar bwyntiau trosglwyddo rhwng cyfnodau
- profiad addysgol gwael i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3

¹⁶ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 64

¹⁷ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 64

¹⁸ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

- cwricwlwm a luniwyd ym 1988 nad yw'n adlewyrchu'r byd y mae pobl ifanc yn byw ynddo nawr a goblygiadau byd sy'n newid o ran yr hyn y mae angen i bobl ifanc ddysgu a'r ffordd y mae angen iddynt wneud hynny.¹⁹

26. Fodd bynnag, o ran manteision ariannol cyffredinol y newid, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

“Oherwydd eu natur, ni fu'n bosibl meintioli'r manteision y disgwylir iddynt ddeillio o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn unrhyw ffordd drwyadl nac ystyrlon.”²⁰

27. Pan ofynnwyd a oedd unrhyw opsiynau eraill wedi'u hystyried, heblaw cyflwyno'r cwricwlwm newydd, dywedodd y Gweinidog na fyddai 'dull tir canol' yn dderbyniol ac y byddai 'ychwanegu darnau' at y cwricwlwm presennol yn gwaethygu'r broblem.²¹ Dywedodd fod anghenion cyflogwyr a chymdeithas wedi newid yn sylweddol ers datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol a bod 'dull hollgynhwysfawr' yn briodol.²²

28. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd ai sgileffaith penderfyniadau a wnaed eisoes oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn hytrach na rhywbeth a oedd yn rhan o'r broses gynllunio. Atebodd y Gweinidog nad oedd hynny'n wir.²³

29. Dywedodd y Gweinidog:

“since 1988 we've kept adding bits and bits and layers and layers on top of the requirements of the national curriculum, which had made it incoherent and incredibly unwieldy for professionals to engage with, and often has led to a tick-box exercise in terms of coverage of some

¹⁹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 14

²⁰ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 90

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14 a 15, 21 Medi 2020

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 21 Medi 2020

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 21 Medi 2020

subjects. So, incremental change wasn't going to deliver, I think, the step change that we needed for individual pupils and young people.”²⁴

30. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod disgwyl i'r Bil arwain at ganlyniadau gwell ar lefel dysgwr unigol yn ogystal â sicrhau manteision ehangach i'r economi yng Nghymru a chymdeithas yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu nad yw'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gael i fesur neu roi gwerth ariannol ar y manteision hyn mewn “ffordd gadarn neu ystyrlon”.²⁵

31. Nododd y Gweinidog na all cwricwlwm ar ei ben ei hun newid canlyniadau i fyfyrwyr.²⁶ Cadarnhaodd y Gweinidog fod diwygio'r cwricwlwm yn ganolbwynt i'r gwaith ehangach o ddiwygio addysg a amlinellir yn 'Cenhadaeth ein Cenedl', sy'n ymwneud â chodi safonau i bob myfyriwr.²⁷

32. Dywedodd y Gweinidog fod y Bil yn symud i ffwrdd o set gul o ddangosyddion a ddefnyddir i ddangos llwyddiant yn y system addysg at ddealltwriaeth ehangach o sut olwg sydd ar berfformiad 'da'²⁸ yn ogystal â datblygu cyfundrefn atebolrwydd newydd.²⁹

33. Er bod y bwloch cyrhaeddiad yn rhan bwysig o hynny, dywedodd y byddai gwella lefelau iechyd a llesiant myfyrwyr yn rhan bwysig o brofiad dysgu yn y cwricwlwm newydd.³⁰ Nododd y Gweinidog bwysigrwydd cydnabod bod pob un o'n plant yn unigolion a bod llwyddiant yn edrych yn wahanol i bob plentyn unigol.³¹ Aeth ymlaen i ddweud bod y drefn atebolrwydd wedi llywio ymddygiadau mewn ysgolion yn rhy aml, gan arwain at ganlyniadau anfwriadol.

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 21 Medi 2020

²⁵ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 61

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 21 Medi 2020

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 21 Medi 2020

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 21 Medi 2020

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 21 Medi 2020

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 21 Medi 2020

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 21 Medi 2020

Roedd ysgolion am wneud y peth iawn ond mae wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol.³²

34. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

“...it's also about changing relationships and working together as a wider sector. So, a lot of it is not just about specific targets, but it's also about how the relationships develop across the sector, how we all deliver for learners, the relationship with parents and with communities as part of the new curriculum. So, specific targets, or specific indicators of achievement—whilst they are important, they are not the whole picture. I'm imagining that something we might come back to is the evaluability assessment, and that's really there and is set out quite clearly as part of the regulatory impact assessment to talk about how we're going to capture some of those wider benefits in a sort of broad and all-encompassing way and not really focus on the narrow targets that the Minister mentioned.”³³

Barn y Pwyllgor

35. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod angen dull hollgynhwysfawr i ddiwygio'r cwricwlwm o ystyried y newidiadau sylweddol mewn cymdeithas a thechnoleg ers datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol ym 1988. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ffordd bwysig o asesu ystod o ddulliau yn feirniadol ac i gynnig dull o wneud penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn aml yn cael eu llunio yn sgil y broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na llywio'r broses honno.

36. Rhaid i oblygiadau cost Bil a'i werth am arian fod yn ystyriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru wrth bennu ei pholisi. Ni ddylai'r materion hyn fod yn ôl-ystyriaeth, a dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol arfarnu'r opsiynau mewn ffordd ystyrlon sy'n dangos costau'r polisiau perthnasol mewn modd tryloyw. Rhaid i

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 21 Medi 2020

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 21 Medi 2020

Lywodraeth Cymru ddangos yn glir sut yr oedd y wybodaeth a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

37. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y Bil yn symud i ffwrdd o'r ffordd gul o fesur llwyddiant, gan arwain at lunio trefniadau atebolrwydd newydd, a bod newid perthnasoedd ar draws y sector yn rhan allweddol o hyn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno na fyddai'n addas nac yn ystyrlon ceisio nodi'r manteision ariannol a allai ddeillio o'r Bil hwn.

38. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'n glir a chyfeirio at ddyheadau y gellir eu profi. Mae angen i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod yn glir ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi llwyddiant a methiant o ran amcanion Bil. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y gall llwyddiant edrych yn wahanol i ddysgwyr unigol, ond rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y mae'n bwriadu gwerthuso'r newid.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol;

Casgliad 2. Nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi llywio'r broses o lunio'r polisiau sy'n gysylltiedig â'r Bil.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn diffinio ac yn gwerthuso llwyddiant y Cwricwlwm newydd ac yn amlinellu hyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

4. Y gofynion newydd ar gyfer ysgolion a'r heriau wrth asesu'r costau

39. Nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

“Penderfynir ar y cwricwlwm ar lefel ysgol, gyda phob ysgol yn cymhwyso gofynion y cwricwlwm yn ei chyd-destun, ei diwylliant a'i dulliau gweithredu ei hun ac, felly, nid oes unrhyw sail unigol ar gyfer asesu costau'r ddeddfwriaeth.”³⁴

40. Amcangyfrifir mai ysgolion fydd yn ysgwyddo cyfran sylweddol o'r costau (rhwng 45 y cant a 71 y cant o gyfanswm y costau), sef rhwng £146 miliwn a £438 miliwn. O'r costau hynny, mae rhwng £14.5 miliwn a £43.6 miliwn yn gostau trosglwyddo uniongyrchol a rhwng £131.4 miliwn a £394.4 miliwn yn gostau wedi'u neilltuo neu'n gostau cyfle.³⁵

Methodoleg a defnyddio Ysgolion Braenaru

41. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y costau i ysgolion. Mae'n nodi bod hyn yn seiliedig yn bennaf ar arolwg o Ysgolion Braenaru. Ar hyn o bryd mae 15 Ysgol Fraenaru.³⁶ Mae'r ysgolion hyn yn dilyn y trefniadau newydd o ran y cwricwlwm ac asesu, ac maent wedi cael cyllid ychwanegol oherwydd y rôl hon.³⁷

42. Ar y sail hon, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw'r Ysgolion Braenaru yn cynrychioli'r holl ysgolion ehangach. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 21 Medi 2020

³⁵ Memorandwm Esboniadol, tudalennau 59, 125 a 126

³⁶ Hyd at ddiwedd 2019 roedd 16 Ysgol Fraenaru. Roedd 1,480 o ysgolion yn gweithredu yng Nghymru yn 2019-20 ([StatsCymru](#)).

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 21 Medi 2020

“Yr her a oedd yn ein hwynebu o ran llunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol oedd, er mwyn darparu asesiad ystyrlon o'r costau posibl, fod angen i ysgol ddeall y fframwaith newydd a bod wedi buddsoddi amser eisoes er mwyn deall beth y byddai'n ei olygu yn ei chyd-destun.”³⁸

43. Cydnabu'r Gweinidog mai nifer fach o ysgolion a ddefnyddid i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, eglurodd fod y 15 Ysgol Fraenaru yn y sefyllfa orau i amcangyfrif y gofynion posibl o ran adnoddau ar gyfer ysgolion, oherwydd eu bod wedi bod yn rhan flaengar a chanolog o ddatblygu'r cwricwlwm hyd yma. Fodd bynnag, cydnabu mai dim ond cyfran fach o'r sector ysgolion yng Nghymru yr oeddent yn eu cynrychioli.³⁹

44. Ychwanegodd y Gweinidog:

“...innovation schools morphed out of our pioneer schools. So, these are the schools that have the deepest understanding of the requirements of the new curriculum and have had most time to engage and think about the developments of the new curriculum. As you'll be aware, a wide range of responses were provided by the innovation schools, demonstrating uncertainty, to a large extent, about what would be required. So, we need to recognise that that remains. That's been sense-tested with other people in the sector, as to whether they represent a reasonable expectation for the implementation.”⁴⁰

45. Nododd y Gweinidog y gofynnwyd i Ysgolion Braenaru hefyd ddarparu eu hadborth cyn i ganllawiau'r cwricwlwm gael eu cyhoeddi. Ymrwymodd y Gweinidog i wneud gwaith pellach i ymgysylltu â set ehangach o randdeiliaid ynghylch rhywfaint o'r gost sy'n gysylltiedig â'r Bil ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf cyn dechrau trafodion Cyfnod 2.⁴¹

³⁸ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 67

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 21 Medi 2020

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 21 Medi 2020

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 21 Medi 2020

46. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y costau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn caniatáu ystod o +/- 50 y cant o ran yr amcangyfrif o gostau i ysgolion. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu bod rhesymau dros fod â hyder yn y ffigurau, gan nodi:

“mae llawer o'r manylion am yr hyn y mae'n rhaid ei wneud er mwyn rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith wedi'u datblygu gan ddefnyddio dull cyd-awduro cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno gerbron y Senedd”.⁴²

47. Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

“we're anticipating that, actually, the costs at the higher end really are at the higher end, and the 50 per cent is really quite a reasonable estimate for what it could look like.”⁴³

48. Soniodd y Gweinidog am y cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r sector mewn perthynas â'r costau hyn. Eglurodd Llywodraeth Cymru fod llawer o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gysylltiedig â dysgu a datblygu proffesiynol, a bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy nag erioed mewn dysgu proffesiynol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.⁴⁴

49. Dywedodd y Gweinidog mai un o'r heriau ymarferol sy'n effeithio ar adnoddau yw gallu ysgolion ac ymarferwyr i gefnogi'r broses o drosglwyddo. Aeth ymlaen i ddweud:

“That is predominantly around releasing staff for professional learning opportunities, releasing school leadership teams to create the space to be able to think about curriculum design as well as developing implementation plans. So, we expect a great deal of the resources that we're putting into the process to be able to allow that to happen, because we believe that's where the greatest cost to schools will fall—

⁴² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 21 Medi 2020

⁴³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 21 Medi 2020

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 21 Medi 2020

creating that time, which usually involves, as I said, additional staff to allow staff to do other things.”⁴⁵

50. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mynegodd Archwilio Cymru bryderon a oes digon o athrawon cyflenwi neu weithwyr cyflenwi ym maes dysgu ar gael i ateb y galw sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yn ogystal â gofynion eraill. Roedd yn bryderus hefyd y gallai'r pwysau ar gyllidebau rwystro ysgolion rhag cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm.⁴⁶

51. Tynnodd swyddog y Gweinidog sylw at y gwaith a oedd wedi'i wneud i gefnogi'r sector i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ychwanegodd:

“So not only the 'Curriculum for Wales: designing your curriculum' guidance, but we have I think it's around 10 elements of new guidance that we're proposing to consult on and publish over the course of the next year, co-constructed to a large degree with practitioners, both to upskill them and to share with them what we really mean by the new curriculum. So, we're anticipating that, actually, the costs at the higher end really are at the higher end, and the 50 per cent is really quite a reasonable estimate for what it could look like.”⁴⁷

52. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio ar ddogfen yn nodi disgwyliadau cyffredin dros dymor yr hydref, i amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau pob rhan o'r sector addysg. Dywedodd y byddai angen iddi gael ei llunio ar y cyd â'r sector, a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cefnogi ysgolion gyda'r lefel gywir o adnoddau.⁴⁸

53. Ar 13 Hydref 2020, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig: Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022. Nodwyd yn y datganiad:

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 21 Medi 2020

⁴⁶ [Tystiolaeth Ysgrifenedig, CAW205 Archwilio Cymru](#)

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 21 Medi 2020

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 21 Medi 2020

“Ynghyd â'r diweddariad ar Genhadaeth ein Cenedl, rwyf hefyd yn cyhoeddi 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r disgwyliadau cyffredin o ran beth y mae gwireddu'r cwricwlwm yn ei olygu i ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau o 2022. Ei nod yw helpu ysgolion i baratoi ar gyfer cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm.

Mae'r ddogfen wedi'i llunio ar y cyd â phartneriaid strategol gan gynnwys ymarferwyr, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac mae'n ymateb uniongyrchol i adolygiad yr OECD a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cynllun clir i'r system addysg ar gyfer y camau nesaf.”⁴⁹

Elfennau nad ydynt wedi'u costio

54. Mae'r dyletswyddau a osodir ar Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol yn wahanol i'r rhai a osodir ar ysgolion. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal “ymchwiliad ar raddfa fach” yn y sector addysg heblaw yn yr ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.⁵⁰ Fodd bynnag, ni chafodd y costau trosglwyddo na'r costau parhaus eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan na ystyriwyd eu bod yn ddigon cadarn i'w cyfuno i lefel Cymru gyfan.⁵¹

55. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn darparu fframwaith i ddysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol, gan roi hawl iddynt gael mynediad at y trefniadau cwricwlwm newydd. Dywedodd y cynhaliwyd astudiaeth ar raddfa fach o chwe awdurdod lleol er mwyn deall yr effaith bosibl yn sgil diwygio'r sector addysg heblaw yn yr ysgol. Aeth ymlaen i ddweud:

“The authorities were selected to represent a range of sizes of authority, levels of rurality and the language of provision, and the authorities were spread from all regional consortia areas. It did identify

⁴⁹ Datganiad Ysgrifenedig: [Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022](#), 13 Hydref 2020

⁵⁰ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 151

⁵¹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 84

a number of costs. All said that they were likely to appoint additional staff to ensure the statutory requirements for this sector would be delivered, and those are outlined in what we have presented in the RIA—... However, again, there is a degree of uncertainty.”⁵²

56. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog, o ystyried yr ystod eang o wahanol anghenion dysgu yn y sector hwnnw, ei bod yn anodd meintioli costau oherwydd y dilynir dull sy'n seiliedig ar anghenion i raddau helaeth ac felly ni chafodd y costau eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.⁵³

57. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys disgrifiad o'r gweithgarwch gofynnol o ran y trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Roedd y Grŵp Cyngori ar Asesu yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a gyflogwyd ar gyfer yr elfen hon o'r Bil. Roedd yn ofynnol i ymarferwyr y Grŵp Cyngori ar Asesu lenwi holiadur Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd chwe ymateb, gydag ymatebwyr ddim o reidrwydd yn ateb pob cwestiwn. Gan mai dim ond un ymateb a gafwyd o'r sector ysgolion a ariennir nas cynhelir, ni chynhwysodd Llywodraeth Cymru y wybodaeth hon.⁵⁴

58. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, gyda sampl mor fach, heb fod ar hap, na ellir ond ystyried unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau yn ddangosol. Oherwydd y cyfyngiadau hyn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

“Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol ceisio meintioli'r effeithiau ariannol a fydd yn gysylltiedig â'r trefniadau asesu newydd. O'r herwydd, nid yw'r costau'n hysbys.”⁵⁵

59. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r 'ymchwiliad ar raddfa fach' gan y Grŵp Cyngori ar Asesu. O ran y trefniadau asesu newydd, dywedodd y Gweinidog:

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 21 Medi 2020

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 21 Medi 2020

⁵⁴ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 81

⁵⁵ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 83

“in all discussions of this Bill we've talked about the content, and we forget to talk about the assessment part of it, and it has to be an intrinsic part; it can't be separate from teaching and learning in schools. And when developing your curriculum, the assessment arrangements should sit alongside that, so it's not a separate process with costs associated with it.”⁵⁶

Cyllid Llywodraeth Cymru

60. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd £126.8 miliwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ar gyfer dysgu proffesiynol. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y cyllid a ddyrennir i ysgolion yn cael ei bennu gan fformiwla ariannu sy'n ystyried nifer yr athrawon cyfwerth ag amser llawn mewn lleoliad ysgol, yn seiliedig ar ddata lefel disgyblion y cyfrifiad ysgolion blynyddol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod y cyllid wedyn yn cael ei ddyrannu drwy'r consortia rhanbarthol gyda chyfarwyddyd i drosglwyddo hynny'n uniongyrchol i ysgolion.⁵⁷

61. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog fod elfennau eraill o ddysgu proffesiynol yn cael eu cyfrif mewn gwahanol ffyrdd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd fod yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn cael ei hariannu drwy grant blynyddol.⁵⁸ Aeth ymlaen i ddweud:

“We fund regional consortia to enable them to provide professional learning opportunities, experiences and resources. We've also had the schools as learning organisations project—that is funded to allow schools to participate in that.

So, whilst the bulk of the majority is for professional learning that we believe is best directed to individual schools, because the headteacher and the senior management team in that school are best placed to

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 21 Medi 2020

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 21 Medi 2020

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 21 Medi 2020

understand the learning needs of the profession in that school, there are wider national elements as well to support that.”⁵⁹

Barn y Pwyllgor

62. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y costau ariannol yn fach o gymharu â'r effaith ehangach a gaiff y cwricwlwm newydd, y tu hwnt i'w effaith ariannol yn unig. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn siomedig na chynhaliwyd gwaith neu asesiad manylach o'r costau i ysgolion ledled Cymru fel rhan o asesiad Llywodraeth Cymru o gostau ac effaith y cynigion. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud rhagor o waith yn y maes hwn cyn Cyfnod 2. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi bod yn feirniadol yn y gorffennol o'r arfer o gyflwyno Biliau pan fo asesiadau cost yn anghyflawn neu phan fwriedir gwneud newidiadau sylweddol yn nes ymlaen. Mae'r Pwyllgor yn cael cyfle i graffu ar y costau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth yng Nghyfnod 1, ac felly dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn y gofynnir i'r Senedd bleidleisio ar Benderfyniad Ariannol gan ymrwymo adnoddau ar gyfer y Bil.

63. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig ag ysgolion wedi'u casglu drwy ymgysylltu â 15 Ysgol Fraenaru (tua 1 y cant o'r ysgolion yng Nghymru) ac nid yw pob un o'r rhain wedi ymateb i'r ymholiadau. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod nad yw'r ysgolion hynny hefyd yn cynrychioli'r boblogaeth ysgolion ehangach oherwydd eu statws. Felly mae'r Pwyllgor yn credu nad yw hyn yn rhoi sylfaen dystiolaeth ddigonol i gael ffydd yn yr amcangyfrifon hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gan gydnabod bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud gwaith pellach yn y maes hwn, cred y Pwyllgor fod angen gwneud mwy o waith i ddeall effaith y ddeddfwriaeth ar ysgolion eraill yn benodol. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ag ysgolion y tu hwnt i'r Ysgolion Braenaru ar y costau hyn i roi sicrwydd iddi'i hun ynghylch yr amcangyfrifon.

64. Croesewir y ffaith y rhoddwyd ystod, gan fod hyn yn rhoi rhywfaint o syniad o'r ansicrwydd a'r risg sy'n gysylltiedig â chostau penodol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi'r ystod a roddwyd (+/- 50 y cant) ar gyfer ysgolion. Er bod y Pwyllgor

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraffau 100 a 101, 21 Medi 2020

yn derbyn bod y rhain yn gysylltiedig yn bennaf â chostau cyfle, maent yn dal i gynrychioli ansicrwydd sylweddol o ran ymrwymiad amser staff. Mae'r ffaith bod yr ystod mor fawr yn ei gwneud hi'n anodd dehongli'r ffigurau ac nid yw'n glir ar ba sail y pennwyd yr ystod hon. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld rhagor o wybodaeth am sut a pham y dewiswyd ystod 50 y cant a'r dystiolaeth a arweiniodd at ddefnyddio'r dybiaeth hon.

65. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022', sy'n nodi disgwyliadau cyffredin o ran beth y mae gwireddu'r cwricwlwm yn ei olygu i ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau o 2022 ymlaen. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Gweinidog yn cynnig ymgynghori a chyhoeddi tua 10 elfen o ganllawiau newydd dros y flwyddyn nesaf.

66. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am y wybodaeth gryno a ddarparwyd ganddi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ogystal â thablau cryno. Fodd bynnag, fel pwynt cyffredinol, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r elfennau hyn o Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr un lefel o fanylion bob tro.

67. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau addysg heblaw yn yr ysgol a threfniadau asesu. Mae'r Pwyllgor yn nodi datganiad y Gweinidog na ddylai'r trefniadau asesu fod yn rhan ar wahân o'r Cwricwlwm ac felly mae'n syndod na wnaed mwy o ymdrech i gynnwys costau ar gyfer y maes hwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid gwneud gwaith pellach i ddiffinio ac amcangyfrif y costau yn y meysydd hyn, gan ymgynghori â rhanddeiliaid.

68. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sawl ffordd wahanol y gall ysgolion gael cyllid o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Disgwylir i arian gan Lywodraeth Cymru gael ei dalu drwy fformiwla ar sail athrawon i ysgolion. O safbwynt tryloywder, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y fformiwla ariannu yn ogystal â darparu gwybodaeth am y trefniadau cyllido eraill.

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r hawl i graffu a gofyn am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog mewn perthynas ag unrhyw newidiadau dilynol i gostau'r Bil maes o law – er nad yw hynny'n opsiwn priodol yn lle craffu ar y costau hyn yng Nghyfnod 1 y Bil.

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig ag ysgolion a gasglwyd drwy ymgysylltu â 15 Ysgol Fraenaru yn sylfaen dystiolaeth ddigonol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i asesu'r costau i ysgolion ac yn ymgysylltu ag ysgolion heblaw Ysgolion Braenaru ynghylch y costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai'r wybodaeth a gesglir gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r sail ar gyfer yr ystod o +/- 50 y cant o ran costau ysgolion.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddiffinio ac amcangyfrif y costau ar gyfer 'addysg heblaw yn yr ysgol' a chostau trefniadau asesu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y fformiwla ar sail athrawon a ddefnyddir i ariannu ysgolion yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y ffyrdd eraill y mae ysgolion yn cael cyllid er mwyn cynorthwyo tryloywder.

5. Costau Suddedig

69. Mae nifer o gostau yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a'r drefn asesu sydd naill ai wedi'u hysgwyddo eisoes neu y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys gwybodaeth am y "costau suddedig" hyn.⁶⁰

70. Nodir costau suddedig rhwng 2015-16 a 2020-21 o dros £100 miliwn. Roedd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn gostau i Lywodraeth Cymru – £89.1 miliwn (gan gynnwys gwariant dros dro o £21.1 miliwn yn 2020-21).⁶¹

71. Mae'r costau suddedig ar gyfer sefydliadau eraill ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 i 2020-21 yn cynnwys:

- Consortia Rhanbarthol – £16.7 miliwn
- Estyn – £4.4 miliwn
- Cymwysterau Cymru – £3.4 miliwn
- Gyrfaoedd Cymru - £86,000

72. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei bod yn bosibl na fydd hyn yn cynnwys yr holl gostau suddedig. Mae'n nodi:

“Byddwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Senedd yn ystod proses graffu Cam un am gostau suddedig sefydliadau eraill megis Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru, darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) cyn ymgorffori'r wybodaeth mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cam Dau.”⁶²

⁶⁰ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 86

⁶¹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 86

⁶² Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

73. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi y bydd unrhyw gostau a ysgwyddir gan ysgolion a gynhelir a lleoliadau eraill a gynhelir wedi cael eu hariannu trwy gyllidebau Llywodraeth Cymru ac felly nid yw'r rhain wedi'u nodi ar wahân. Fodd bynnag, mewn adrannau sy'n ymdrin â'r costau manwl i ysgolion, darperir gwybodaeth am rai costau suddedig, gan gynnwys:

- Costau uniongyrchol suddedig (2020-21): rhwng £5.4 miliwn ac £16.1 miliwn;
- Costau uniongyrchol suddedig (2020-21): rhwng £40.7 miliwn a £122.0 miliwn.

74. Mae costau suddedig yn 2019-20 a 2020-21 o rhwng £5.3 miliwn a £6.2 miliwn hefyd wedi'u hamlinellu yn yr adran o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n manylu ar gostau addysg heblaw yn yr ysgol.⁶³

75. Cadarnhaodd y Gweinidog fod dros £100 miliwn wedi'i ysgwyddo mewn costau suddedig ers 2015 wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Dywedodd y byddai'n dadlau nad yw'r buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol byth yn cael ei wastraffu, a'u bod eisoes wedi profi'n ddefnyddiol.⁶⁴ Aeth ymlaen i ddweud:

“...the digital competence framework, for instance. That's already, I believe, successful. We talked earlier about the need to transform the digital infrastructure in preparation for the new curriculum. Well, my goodness me, aren't I glad that we've invested in Hwb, because I don't know what we would have done during the pandemic if Hwb didn't exist? We would have been absolutely sunk without the basis of that digital learning platform and the fact that all children have access to free Microsoft software, Google for Education software, Adobe software, and the platform has enabled teachers to keep in touch with children.”⁶⁵

⁶³ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 149

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 21 Medi 2020

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 49, 21 Medi 2020

76. Wrth ateb y cwestiwn pam roedd costau suddedig ysgolion a gynhelir ac addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond nad oeddent yn ymddangos yn y costau suddedig cyfun, dywedodd y Gweinidog:

“[Education other than a school] was collected through discrete pieces of work and the outputs from those pieces of work, both sunk costs and forward looking assessments, have been reported...in a single place in the RIA. However, I agree that it would be sensible for all the information on sunk costs to be reported in the same part as we move forward.”⁶⁶

77. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod y costau suddedig ar gyfer ysgolion a gynhelir ac addysg heblaw yn yr ysgol wedi cael eu trin yn union yr un fath â'r holl gostau suddedig eraill, yn yr ystyr eu bod yn cael eu cyflwyno yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol at ddibenion tryloywder, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghostau'r Bil ac felly heb gael eu cyfuno i'w cynnwys yn y prif gostau.⁶⁷

78. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n synhwyrol, wrth symud ymlaen, pe bai'r holl wybodaeth am gostau suddedig yn cael ei chyflwyno yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.⁶⁸

Barn y Pwyllgor

79. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod y costau suddedig a welwyd wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi darparu buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol sydd eisoes wedi profi'n werthfawr. Cyfeiriodd y Gweinidog at ddefnyddio Hwb yn ystod pandemig COVID-19 a oedd yn caniatáu i blant a phobl ifanc gael mynediad i blatfform dysgu am ddim ac yn galluogi athrawon i gadw mewn cysylltiad â'u myfyrwyr, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hynny'n fanteisiol.

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 21 Medi 2020

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 21 Medi 2020

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 21 Medi 2020

80. Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Gweinidog wedi cytuno y bydd gwybodaeth am yr holl gostau suddedig yn y Bil yn cael ei chynnwys yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae'n croesawu cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chostau suddedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r manylion am yr holl gostau suddedig sy'n ymwneud â'r Bil yn yr un rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

6. Effaith COVID-19

81. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi rhai costau nad ydynt wedi eu cynnwys a meysydd lle nad yw'r gwaith wedi'i wneud eto. Mae'n nodi y bu'n rhaid dod â'r gwaith o ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac Estyn i ben am ychydig wrth iddynt flaenoriaethu mewn ymateb i bandemig COVID-19.⁶⁹

82. Amlinella Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei bod yn bwriadu ymgysylltu â'r sefydliadau hynny "pan fo'n briodol". Bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei rhannu â'r Senedd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ac yn cael ei gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cyfnod 2.⁷⁰

83. O ran effaith COVID-19 ar y cyfnod gweithredu arfaethedig (gan ddechrau ym mis Medi 2022), mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi:

"Er gwaethaf yr ansicrwydd presennol sydd wedi'i greu gan bandemig COVID-19, yr amserlenni hyn sy'n dal i roi'r syniad gorau o sut a phryd y caiff y diwygiadau i'r cwricwlwm eu cyflwyno fesul cam."⁷¹

84. Dywedodd y Gweinidog fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar addysg . Cadarnhaodd:

"...we were all ready to go with our implementation plan [correction: our shared expectations document] when we had to close schools for the purposes of statutory education. And we're having to update that implementation plan [correction: that shared expectations document] in the light of COVID, because we don't want to send it out to the

⁶⁹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 61

⁷⁰ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 61

⁷¹ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 65

sector pretending that COVID never happened because, clearly, schools are having to contend with COVID in the here and now.”⁷²

85. Wrth ateb y cwestiwn pam roedd cymaint o randdeiliaid pwysig heb gael cyfle i gyfrannu at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn y pandemig, eglurodd y Gweinidog:

“COVID has had an impact and it has had an impact on the ability of some of our partners to be able to participate in this process to date, but you'll be aware, for instance, that Estyn have confirmed that they expect to manage any additional costs within their core funding. Regional consortia have adapted practices in readiness for the new curriculum. Qualifications Wales have provided costs as to the impact on their functions, and those are outlined in the RIA. That predominantly arises out of undoubted need for change in qualifications as a result of the new curriculum reform. And we continue to look to see what other costs might fall on other bodies, whether they be the Catholic Education Service, for instance, which is very interested in this work, and whether there will be minor consequential costs associated with sixth forms or the further education sector, remembering that the Curriculum and Assessment (Wales) Bill is three to 16.”⁷³

86. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r amserlenni gweithredu ar gyfer y cwricwlwm newydd yn cael eu hadolygu, gan ychwanegu:

“...we have to monitor very closely the ability of the sector to cope with everything that COVID-19 is throwing at it, and we're throwing at it at the moment, and ensuring that there is still the time for schools to engage in the work that is necessary to stick to implementation dates, and we will keep that under review.”⁷⁴

⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 21 Medi 2020

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 21 Medi 2020

⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 21 Medi 2020

87. Yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Gorffennaf 2020, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chonsortia Rhanbarthol, dywedodd cynrychiolwyr wrth y Pwyllgor y byddent yn cyflwyno gwybodaeth ariannol wedi'i diweddarau i Lywodraeth Cymru ddechrau Medi 2020. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o effaith costau COVID-19.⁷⁵

88. Ar 20 Tachwedd 2020, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth am yr amcangyfrifon o gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

89. Roedd y llythyr yn nodi bod nifer o randdeiliaid allweddol wedi'u gwahodd i gyflwyno rhagor o dystiolaeth i lywio'r costau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o'r sector addysg bellach ym mis Awst 2020 i glywed eu safbwyntiau am yr effaith bosibl ar y system addysg ôl-16,⁷⁶ gan gynnwys:

- goblygiadau ariannol i hyfforddiant yn y sector ôl-16;
- yr angen posibl am oriau addysgu ychwanegol mewn rhai pynciau os na cheir meysydd penodol o wybodaeth o'r cwricwlwm gorfodol newydd; a'r
- angen i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y sector addysg bellach, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau gweithgareddau pontio hefyd er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu paratoi'n effeithiol i ddilyn cyrsiau ôl-16 ar gyfer pynciau penodol.⁷⁷

90. Roedd y llythyr yn nodi:

“Mae Colegau Cymru yn cydnabod nad yw'r materion hyn o reidrwydd yn rhan o gwmpas ariannol y Bil sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm gorfodol ond maent o'r farn y bydd angen ystyried y costau hyn er

⁷⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 20 Gorffennaf 2020

⁷⁶ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

⁷⁷ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn llwyddo i gyflawni ei nodau".⁷⁸

91. Mae'r llythyr yn mynd ymlaen i nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Colegau Cymru i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y grŵp cyntaf o ddysgwyr yn 2027, gan fwydo i'r cynllun gweithredu Dysgu Proffesiynol a'r Fframwaith Dysgu Proffesiynol ar gyfer staff yn y sector ôl-16 fel y bo'n briodol. Bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu talu o'r cyllidebau a neilltuwyd i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, gan adeiladu ar y cyllid gwerth £124,000 a ddyrannwyd ar gyfer addysg bellach rhwng 2018-19 a 2020-21 i gefnogi'r cwricwlwm newydd.⁷⁹

92. Nododd y llythyr fod gwaith yn mynd rhagddo i nodi costau posibl i gyrff dyfarnu a fydd yn deillio o newid cymwysterau, a sut y gallai'r rhain effeithio ar ganolfannau arholi. Ychwanegodd fod y sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig "yn golygu bod yr ymarfer hwn yn anodd iawn". Nododd y bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ymhellach yn y flwyddyn newydd ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd.⁸⁰

93. Cadarnhaodd y Gweinidog, wrth i waith Cymwysterau Cymru fynd rhagddo ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd, y bydd y cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yr edrychir yn fanwl ar unrhyw gostau o'r cymwysterau newydd i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector.⁸¹

94. Roedd llythyr yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig i ddatblygu canllawiau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd o fewn y cyllidebau presennol. Nododd fod yr ysgolion hyn yn honni y byddai'r gofynion iddynt gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y maes llafur cytûn ac Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn golygu costau ac adnoddau

⁷⁸ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

⁷⁹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

⁸⁰ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

⁸¹ Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

ychwanegol i'w hysgolion, ac y byddai'r goblygiadau ariannol yn cael eu talu o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.⁸²

Barn y Pwyllgor

95. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ansicrwydd a grëwyd yn sgil COVID-19 a'r angen i Lywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid, flaenoriaethu eu hymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oedd y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi symud ymlaen ymhellach ar ôl cyflwyno'r Bil. Mae hyn yn arwain at nifer o bryderon ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud y penderfyniadau a amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

96. Mae hefyd yn destun pryder bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bil gan wybod nad oedd wedi cwblhau'r gwaith o ymgysylltu â rhai sefydliadau a rhanddeiliaid allweddol. Nid dyma'r Bil cyntaf lle y mae hyn wedi digwydd ac roedd y Pwyllgor yn feirniadol yn y gorffennol o'r drefn a ddilynwyd ar gyfer y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) pan gyflwynwyd y Biliau gyda'r bwriad o wneud newidiadau sylweddol maes o law. Ni ddylai'r arfer hwn barhau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod goblygiadau COVID-19 wrth ohirio'r Bil hwn, fodd bynnag, mae'n rhaid i ddeddfwriaeth a'r wybodaeth gysylltiedig berthnasol fod yn gyflawn pan gânt eu cyflwyno yn y Senedd.

97. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r llythyr oddi wrth y Gweinidog at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am oblygiadau ariannol y Bil. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhanddeiliaid allweddol wedi mynegi pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar y system addysg ôl-16 ac ymrwymiad y Gweinidog i fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.

98. Roedd y llythyr yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i nodi costau posibl i gyrff dyfarnu a fydd yn deillio o newid cymwysterau a sut y gallai'r rhain effeithio ar ganolfannau arholi. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn

⁸² Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg, 20 Tachwedd 2020

ymgynggori ymhellach yn y flwyddyn newydd ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd ac y bydd y cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

99. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid i'r Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig er mwyn datblygu canllawiau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, o gofio bod yr ysgolion hyn yn honni y bydd y gofynion iddynt gyflwyno Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn golygu costau ac adnoddau ychwanegol i'w hysgolion. Mae'r Pwyllgor yn falch y bydd y goblygiadau ariannol yn cael eu talu o gyllidebau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

100. Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad y Gweinidog i barhau i adolygu'r llinell amser gweithredu ac yn cefnogi hyn o ystyried yr amgylchedd presennol. Fodd bynnag, rhaid gwneud yn siŵr bod gan randdeiliaid sicrwydd fel eu bod yn gallu paratoi ar gyfer gofynion y ddeddfwriaeth newydd a rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i'r penderfyniad hwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd fod yn glir ynghylch y goblygiadau ar gyfer costau'r Bil ac unrhyw ffactorau dibynnol eraill pe bai'n dod i'r casgliad ei bod yn well gohirio'r broses o roi'r newid ar waith.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am ei thrafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch y costau posibl i'r system addysg ôl-16 a chyhoeddi unrhyw fanylion am y goblygiadau ariannol.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn adolygu'r costau a ddarperir gan randdeiliaid (ac yn rhoi gwybod i'r Senedd am y costau hynny) a'r amserlenni gweithredu.

7. Adolygiad ôl-weithredu

101. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod yr adolygiad ôl-weithredu yn rhan o 'raglen ehangach i werthuso'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm'. Yn ystod hynt y Bil, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn 'asesiad gwerthuso'. Bydd hyn yn nodi sut y gellir casglu a chyflwyno tystiolaeth am weithredu'r diwygiadau a'r effeithiau cysylltiedig mewn ffordd ddibynadwy.⁸³

102. Nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bydd yr asesiad gwerthuso, ymhlith gweithgareddau eraill, yn cynnwys ffurfio grŵp cynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd cynllun gwerthuso manwl yn dilyn yr asesiad gwerthuso. Fel rhan o'r gwerthusiad economaidd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad trylwyr a chadarn o'r costau a'r manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.⁸⁴

103. Cyhoeddir adolygiad o'r pum mlynedd gyntaf yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.⁸⁵

104. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu cerrig milltir yn y broses werthuso:

- Cwblhau asesiad hygyrchedd erbyn haf 2021 (ar ôl y Cydsyniad Brenhinol)
- Cwblhau cynllun gwerthuso yn 2021/22
- Adolygiad ôl-weithredu o'r pum mlynedd gyntaf erbyn haf 2026
- Y tymor hwy: Gwerthuso'r effaith pan fo'r canlyniadau ar gael ar gyfer plant wrth iddynt symud ymlaen i arholiadau cenedlaethol, addysg bellach, addysg uwch a bywyd fel oedolyn.⁸⁶

⁸³ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 175

⁸⁴ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 176

⁸⁵ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 177

⁸⁶ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 177

105. Cofnodir y costau gwerthuso yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar £2.8 miliwn, wedi'i wasgaru'n gyfartal dros y cyfnod gwerthuso.⁸⁷

106. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu nodi'r cynlluniau ar gyfer gwerthuso yng nghynllun gweithredu'r cwricwlwm a gyhoeddir maes o law, a fydd yn adeiladu ar waith ac argymhellion yr OECD.⁸⁸ Esboniodd:

“So, the research and evaluation programme will begin prior to Royal Assent ... with work to understand and measure readiness in order to support effective implementation. The programme will also include the evaluability assessment—...—that will draw together views on the outcomes and impacts that we should measure, review existing and planned sources of evidence and identify the research activities that will be required outside of Government to measure them. And we're looking at a 10-year implementation process throughout that point.”⁸⁹

Barn y Pwyllgor

107. Mae'r Pwyllgor yn siomedig na chynhaliwyd yr asesiad gwerthuso, ar ryw ffurf neu'i gilydd, cyn cyflwyno'r Bil. Heb gynnal asesiad o'r fath, ni all yr adolygiad ôl-weithredu ddarparu gwybodaeth ddigonol am yr hyn a fydd yn cael ei asesu fel rhan o unrhyw werthusiad. Hefyd amlinellodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor bwysigrwydd yr asesiad gwerthuso wrth nodi rhai o fanteision ehangach y ddeddfwriaeth. Byddai rhagor o fanylion am hyn wedi cynnig gwybodaeth werthfawr am sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu gwerth am arian y newid.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Memorandwm Esboniadol o ran ei chynigion ar gyfer gwerthuso'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys sut a phryd y mae'n bwriadu gwneud hyn.

⁸⁷ Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 108

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 110, 21 Medi 2020

⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 21 Medi 2020